



COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO

**Dydd Mawrth 22 Mehefin 2021 am 10:00am (Cyfarfod Timau
Microsoft)**

Yn bresennol:

Tegryn Jones	Prif Weithredwr, APCAP (Cadeirydd)
Sue Leonard	Prif Swyddog, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (Is-Gadeirydd)
Dr Steven Jones (SPJ)	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol, CSP
Iwan Thomas	Prif Weithredwr, PLANED
Dr Barry Walters	Pennaeth, Coleg Sir Benfro
Yr UA Anthony Evans	Heddlu Dyfed Powys
Alyson Phillips	Rheolwr Partneriaeth Sir Benfro, Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Kevin Jones	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, GTACGC
Andrea Winterton	Rheolwr Gwasanaeth Morol, Gweithrediadau, CNC
Philip Kloer	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, BIPHDd (gadawodd am 11:30pm)
Elaine Lorton	Cyfarwyddwr Sirol, Sir Benfro, BIPHDd (gadawodd am 11.30am)
Mydrian Harries	Pennaeth Corfforaethol Atal a Gwarchod, GTACGC
Anna Bird	Pennaeth Datblygu Partneriaeth Strategol, BIPHDd
Y Cyngh. Elwyn Williams	Is-Gadeirydd Awdurdod Tân CGC
Y Cyngh. Cris Tomos	Cyngor Sir Penfro
Nick Evans	Rheolwr Polisi a Phartneriaethau Corfforaethol, CSP
Diane Lockley	Un Llais Cymru

Cymorth/Ysgrifenyddiaeth

Lynne Richards	Swyddog Partneriaethau Corfforaethol, CSP
Amy Richmond-Jones	Gwasanaeth Tân ac Achub CGC
Jemma Rees	Swyddog Cymorth Partneriaethau Corfforaethol, CSP

Ymddiheuriadau

Jonathan Griffiths	Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol a Thai, CSP
Martyn Palfreman	Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol, PGGC
Sinead Henehan	Rheolwr Diogelwch Cymunedol, Tlodi ac Adfywio, CSP
Christine Harley	Pennaeth Uned Gyflawni Leol Dyfed Powys, GPaChEM
Richard Brown	Prif Weithredwr Interim, CSP
Ros Jervis	Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, BIPHDd

Dechreuodd y cyfarfod am 10:05am

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Gwnaed cyflwyniadau a derbyniwyd ymddiheuriadau gan y rhai a restrir uchod.

Nododd TJ, fel a grybwyllwyd yn y cyfarfod blaenorol, nad oes cynrychiolydd newydd o Lywodraeth Cymru eto ac y byddai'n ysgrifennu atynt i amlygu hyn.

2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Log Gweithredu

Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 27 Ebrill 2021 yn gywir.

Log Gweithredu

Roedd diweddariadau ar gamau gweithredu y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod diwethaf fel a ganlyn;

Cam Gweithredu 1 – Wedi'i gwblhau

Camau Gweithredu 2 a 3 – Rhoddodd AW ddiweddariad i'r BGC gan egluro bod cyfarfod wedi'i gynnal cyn y BGC heddiw. Yr uchelgais a nodwyd oedd cyflawni niwtraliaeth carbon a dod â chynrychiolwyr allweddol o sefydliadau'r BGC ynghyd i fwrw golwg ar yr agenda hon. Mae cais wedi cael ei gyflwyno i'r gronfa adnewyddu cymunedol, sydd wedi bod yn llwyddiannus ar lefel y sir ac sydd gyda Llywodraeth y DU ar gyfer penderfyniad terfynol, i gynnal cyfres o weithdai ar addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Ychwanegodd TJ fod peth wmbredd o waith yn cael ei wneud a bod angen edrych sut y mae'r BGC yn ffitio i mewn gyda hyn. Bydd amodau gorchwyl yn cael eu llunio a bydd cyfarfodydd pellach yn cael eu cynnal yn ôl yr angen.

TJ/AW

Cam Gweithredu 4 – Ar yr agenda

Cam Gweithredu 5 – Wedi'i gwblhau

Cam Gweithredu 6 – Ar yr agenda

3. Asesiad Llesiant

Darparodd NE ddiweddariad ar yr Asesiad Llesiant. Mae Rhwydwaith Ymgysylltu a Chydgyhyrchu Sir Benfro wedi cael ei ail-sefydlu i gynnal yr ymgysylltiad lleol, a fydd yn ategu'r gwaith rhanbarthol. Mae disgwyl i waith rhanbarthol gynyddu dros yr haf yn barod ar gyfer cyflawni gweithgareddau ymgysylltu. Awgrymodd SL y gall fod angen agor y rhwydwaith i sefydliadau allanol ychwanegol er mwyn cyrraedd y gymuned ehangach ac fe ddarparwyd ar gyfer hyn o fewn amodau gorchwyl y grŵp.

Ni chafwyd unrhyw adborth eto gan Rhwydwaith Cydgyhyrchu Cymru ar y cais aflwyddiannus gan y clwstwr BGC rhanbarthol ar gyfer cymorth pwrpasol gan y Rhwydwaith Cydgyhyrchu ond maent wedi cynnig rhyw fath o gymorth i bob BGC trwy gynnal fforwm. Unwaith y bydd yn ei swydd bydd y Cydlynnydd Llesiant Rhanbarthol yn rhoi cymorth a chynhorthwy gwerthfawr gyda chydgyhyrchu a dadansoddi data.

Dywedodd NE fod y catalog data sy'n cael ei gynhyrchu gan Lywodraeth Cymru yn gam cadarnhaol oherwydd, wrth gynhyrchu'r asesiad llesiant diwethaf, roedd bylchau yn y data a oedd ar gael gan olygu bod y penderfyniadau a'r casgliadau y daethpwyd iddynt yn llai gwybodus. Dywedodd NE fod y tri phapur briffio ymchwil yn ddarnau da o waith a oedd yn cynnwys gwybodaeth gyflawn a chadarn a fydd yn cynorthwyo Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gynhyrchu'r Asesiad Llesiant. Roedd yr adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol wedi cael ei gyhoeddi'n rhy hwyr i gael ei ddefnyddio yn yr Asesiad Llesiant blaenorol felly roedd y ffaith bod disgwyl iddo gael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf yn cael ei chroesawu.

Ar bwnc yr offeryn "Horizon" a ddatblygwyd gan WriteMedia, nododd SPJ fod yr enw Horizon yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd fel y teitl ar gyfer prosiect gweithredol sy'n mynd rhagddo yn Ne Cymru ac felly y gallai fod angen newid yr enw i gael gwared ar unrhyw ddrwsych. Dywedodd NE ei fod yn cytuno bod angen rhoi sylw i'r enw gan bod angen i'r rhaglen fod â hunaniaeth gref fel brand sy'n cael ei ddeall yn gyffredinol ar draws y BGC gan mai'r bwriad yw y bydd yn dod yn adnodd gwerthfawr i bawb.

Gofynnodd SPJ hefyd am gael arddangosiad o'r offeryn gan Writemedia i gynorthwyo gyda sut i ddefnyddio'r offeryn. Dywedodd NE y byddai'n gofyn am hyn yn y cyfarfod rhanbarthol nesaf. Gofynnodd SPJ hefyd a yw'r catalog data'n mynd i gael ei integreiddio yn y rhaglen. Bu oedi wrth gynhyrchu Horizon ac nid oes fersiwn fyw wedi cael ei gweld hyd yma ond dywedodd NE y bydd data byw yn cael ei fwydo i mewn i'r rhaglen ac mai'r bwriad yw y bydd Horizon yn cael ei gadw'n fyw yn barhaus, i'w ddefnyddio mewn Asesiadau Llesiant yn y dyfodol.

NE

Gan gyfeirio at y llinell amser a oedd wedi'i chynnwys yn y cynllun ymgysylltu, gofynnodd PK faint y mae'r llinell amser yn debygol o newid gyda'r oedi a fu a gofynnodd hefyd a gysylltwyd ag unrhyw reolwyr prosiectau a weithiodd ar yr asesiad blaenorol i ofyn am adborth. Dywedodd NE mai'r raddfa amser wreiddiol oedd y byddai'r asesiad drafft ar gael yn yr hydref ac yn cael ei gwblhau yn y gaeaf, a oedd yn gadael llawer o amser wrth gefn fel na fydd yr oedi'n achosi unrhyw broblemau. Cododd SL y pwynt yn y cyfarfod rhanbarthol nad oes angen rhuthro'r ymarfer ymgysylltu gan mai hwn yw cam pwysicaf yr asesiad. Mae aelodau o'r BGC a oedd yn rhan o gynhyrchu'r asesiad blaenorol yn eistedd ar y grŵp rhanbarthol ac yn darparu adborth yn y gweithgor. Os trefnir arddangosiad ar gyfer y catalog data, gall y rhai a fydd yn bresennol roi adborth hefyd a nodi unrhyw fylchau mewn gwybodaeth. Mae NE yn gofyn am gymorth gan holl aelodau'r BGC i nodi unrhyw wendidau a mynd i'r afael â hwy.

Dywedodd EL ei bod yn bwysig cofio mai Asesiad Llesiant ar gyfer y gymuned i oleuo'r BGC ynghylch eu teimladau yw'r darn hwn o waith ac nid ymgynghoriad ynghylch darparu gwasanaethau. Mae'r prosiect gofal canolradd cenedlaethol yn cael ei gynnal ar hyn o bryd gyda'r canlyniadau'n cael eu cyhoeddi ym mis Tachwedd ac efallai y bydd data'n cael ei gasglu y gellir ei ddefnyddio ar gyfer yr asesiad. Ychwanegodd SL fod yr asesiad o anghenion y boblogaeth yn cael ei redeg ar yr un pryd â'r gwaith ar gyfer yr asesiad hefyd, a gofynnodd a yw'r ddau ddarn o waith yn cael eu cydblethu â'i gilydd. Nid oedd Martyn Palfreman (Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru) ar yr alwad i ateb y cwestiwn ond dywedodd NE y bydd y ddau ddarn o waith yn ategu ei gilydd.

4. Diweddariadau ar gynnydd gyda Chynlluniau Gweithredu

Themâu Cymunedol

- a) Adeiladu cysylltiadau â grwpiau perthnasol i gefnogi cyflwyno'r ffrydiau gwaith â thema Cymunedau (*Arweinwyr - Sue Leonard/Iwan Thomas*)

Nid oedd diweddariad ychwanegol ar ben y diweddariad ysgrifenedig a gafodd ei gylchredeg.

- b) Adeiladu cysylltiadau cryfach â Chynghorau Tref a Chymuned (*Arweinydd - Iwan Thomas*)

Rhoddodd IT wybod i'r bwrdd bod y prosiect Llesiant a Chydnerthedd Cymunedol bellach yn tynnu at ei derfyn. Mae PLANED wedi cyflwyno cais am gyllid i gyflogi

swyddog Cynghorau Tref a Chymuned ar gyfer Sir Benfro i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn y gweithdai a gynhaliwyd.

c) Fforwm Cyfalaf Naturiol Cynaliadwy Sir Benfro (Arweinydd - Sue Leonard)

Cadarnhaodd SL fod cyfarfod am y fforwm wedi cael ei gynnal lle trafodwyd rôl y fforwm a'r bwriad o'i ail-lansio mewn digwyddiad yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Gofynnodd SL a oedd unrhyw gyllid pellach ar gael gan CNC a dywedodd AW nad yw CNC wedi cael unrhyw gyllid ychwanegol ac felly nad oedd estyniad ar gael eleni.

Fframwaith Trawsnewid Recriwtio a Chyflogaeth

d) Datblygu dull a rennir ar gyfer llesiant staff ar draws sefydliadau partner y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Arweinwyr - David Evans/Alyson Phillips)

Dywedodd BW fod y gweithdy wedi bod yn gyfarfod cadarnhaol ac adeiladol ac y bu pryder gwirioneddol ymhlith y rhai a oedd yn bresennol ynghylch llesiant staff. Y casgliad cyffredinol y daethpwyd iddo oedd bod angen adolygu arferion o ran modelau gweithio hybrid, gan gynnwys manteision gweithredol, materion amgylcheddol a'r effeithiau ar iechyd meddwl. Ailadroddodd BW ac AP pa mor gadarnhaol a chynhyrchiol oedd y gweithdy ac fe gytunon nhw i gylchredeg yr adroddiad unwaith y bydd wedi'i gwblhau. Ychwanegodd TJ fod y rhaglen lywodraethu a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cynnwys nod gan Lywodraeth Cymru y bydd 30% o'r gweithlu yng Nghymru'n gweithio gartref ac felly y gallai'r ymarfer hwn fod yn allweddol i hwyluso hyn.

BW/AP

e) Codi ymwybyddiaeth o gynlluniau a mentrau i gefnogi cyflogaeth a hyfforddiant (Arweinwyr - David Evans/Alyson Phillips)

Awgrymodd AP y gallai fod estyniad i'r cynllun Kickstart ond bod prosiect y BGC wedi dod i'w derfyn yn naturiol bellach. Bydd yn darparu diweddariad terfynol yn y cyfarfod nesaf.

Cododd SL fater cyfredol recriwtio ledled Sir Benfro a pha un a oedd unrhyw weithredu i fynd i'r afael â hyn fel BGC. Mae AP ac IT wrthi ar hyn o bryd yn cynnal gweithgor trafniadaeth, a arweinir gan Rachel Moxey, oherwydd nifer cynyddol y swyddi gwag sydd heb eu llenwi. Mae'r grŵp yn cynnwys cyflogwyr, cyflogeion, dysgwyr ac athrawon i roi barn sy'n cwmpasu sbectrwm eang. Bydd AP yn rhannu'r canfyddiadau a'r syniadau o'r gweithgor gyda'r BGC ar gyfer trafod rhwystrau a meysydd y gall y BGC gynorthwyo gyda hwy gan y bydd hyn yn berthnasol i'r holl gyrff.

AP

Dywedodd SPJ, os rhoddir estyniad ar y cynllun Kickstart, y byddai gan CSP ddiddordeb mawr. Cyhoeddwyd y Warrant i Bobl Ifanc ar 21 Mehefin gan Lywodraeth Cymru a gofynnodd a oedd yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi cael unrhyw wybodaeth. Atebodd AP trwy ddweud nad oedd unrhyw beth wedi dod i law hyd yma ond ei bod hi'n disgwyl yr wybodaeth yn fuan. Cytunwyd y byddai eitem ynghylch heriau cyflogaeth yn cael ei hychwanegu at yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

LR

5. Adroddiad Blynyddol y BGC 2020-21

Darparodd LR drosolwg o strwythur awgrymedig adroddiad blynyddol y BGC a gofynnodd am adborth gan y bwrdd. Gofynnodd AB a ellid cynnwys adran ar y modd yr oedd y BGC wedi cydweithio yn ystod Covid. Bydd yr adroddiad drafft yn cael ei ychwanegu at agenda cyfarfod y BGC ym mis Medi i gael ei gymeradwyo.

LR

6. Prosiect Mapio Ystadau Hywel Dda

Eglurodd EL fod y prosiect wedi dechrau 18 mis yn ôl a'i fod yn cyd-fynd â phrosiect y BGC ar weithio hybrid a hefyd y prosiect ar Gynghorau Tref a Chymuned. Canfu gwerthusiad a gynhaliwyd gan Brifysgol Aberystwyth ar gydweithio integredig fod bod â'r lle ar gael i'w weld yr un mor bwysig â'r sgwrs ynghylch y pwnc. Wrth i'r prosiect ddatblygu, mae BIPHDd yn awyddus i ganfod faint o ddiddordeb sydd ymhlith partneriaid y BGC a hoffai ddefnyddio'r lle yn y tri hwb a enwir yn y papur, yn enwedig Abergwaun.

Dyweddodd AE fod Gorsaf Heddlu Abergwaun yn mynd yn fwyfwy anaddas ar gyfer y diben ac y byddai ganddo ddiddordeb mewn manteisio ar y lle. Ychwanegodd KJ fod prosiect tebyg yn weithredol yn Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd, i greu hybiau mewn ardaloedd llai ac y gallai fod o werth cael adborth o'u profiad hwy. Ymatebodd EL gan ddweud nad yw'r prosiect yn amcanu at ddiwallu anghenion cymunedau ar hyn o bryd ond y bwriedir ymchwilio ymhellach i hynny a dywedodd ei bod yn croesawu'r syniad bod cyfranwyr eraill yn rhannu pa bwysau y mae cyrff eraill yn eu dioddef. Dywedodd SPJ fod gan CSP ganolfan hamdden ym mhob un o'r 6 ardal ddynodedig y gellid eu defnyddio yn y prosiect hwn gan bod canolfannau'n brysur gyda'r nos ac yn dawelach yn ystod y dydd, sy'n rhywbeth i'w drafod. Cododd SL bryder, wrth i'r diddordeb mewn creu hybiau gynyddu, bod hwb o hybiau'n dechrau ymffurfio ond bod datblygu "pwyntiau mynediad cymunedol" a hybu cydweithio'n agweddau cadarnhaol. Rhoddodd EL wybod i'r bwrdd y bydd un hwb peilot yn cael ei greu i ddeall beth yw anghenion y gymuned.

7. Unrhyw Fater Arall

Dyweddodd CT fod Grŵp Llywio Gwella Sir Benfro wedi cymeradwyo cais am swyddog cymorth Cynghorau Tref a Chymuned pwrpasol, a fydd yn cael ei ariannu o Gronfa Gwella Sir Benfro. Byddai penderfyniad terfynol ar y cais yn cael ei wneud gan y Cabinet ar 28 Mehefin. Ychwanegodd fod CSP â'i fryd ar gynyddu'r dreth gyngor ar ail gartrefi, a fydd yn cynyddu refeniw Cronfa Gwella Sir Benfro. Awgrymodd SL y dylai Cronfa Gwella Sir Benfro gael ei defnyddio'n strategol ar gyfer mentrau a arweinir gan gymunedau a'i bod o ddiddordeb arbennig yn awr bod cyllid LEADER wedi dod i ben. Mae defnyddio cyllid arall yn allweddol i ddisodli a chadw'r hyn a ddarparwyd gan LEADER.

Yn y rhaglen lywodraethu, nododd SPJ ddau syniad a nodir yn y ddogfen a allai fod o ddiddordeb i'r BGC:

1. Banc cymunedol y dylai'r BGC gyflwyno cynnig i'w letya ym marn SPJ. Dywedodd IT ei fod yn hapus i ymgymryd â'r trafodaethau ynghylch y banc cymunedol.
2. Yr agenda dlodi sy'n amcanu at dreialu incwm sylfaenol mewn dwy ardal yng Nghymru, un drefol ac un wledig. Mae SPJ yn cynnig ymgeisio am hyn oherwydd y papur damniol sy'n nodi bod gan Sir Benfro y cyfraddau tlodi plant gwaethaf yn y DU, i ddangos fel sir ein bod yn "rymus ac yn flaengar". Fe eiliwyd y syniad hwn gan TJ.

Roedd y BGC yn gyffredinol yn cytuno â'r syniadau a bydd SPJ yn cyfathrebu gyda'r bwrdd pan fo angen.

Rhoddodd IT wybod i'r BGC fod PLANED wedi creu arolwg ar gyfer yr ymateb cymunedol i Covid yn Sir Benfro. Mae'r arolwg ar agor tan fis Gorffennaf ac mae

disgwyl i'r canlyniadau fod ar gael ym mis Medi, a ddylai olygu eu bod yn gallu bwydo i mewn i'r Asesiad Llesiant. Mae PLANED yn mynd allan i 7 cymuned i godi ymwybyddiaeth o'r arolwg i gasglu cymaint o ddata â phosibl. Unwaith y bydd y canlyniadau wedi'u coladu, bydd y data'n cael ei gylchredeg.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:40 am.